Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

**Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

Dydd Llun, 14 Rhagfyr 2015 at 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

# RHAGLEN

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

2. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

   Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

3. **Materion Brys**

   Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4. **Cofnodion** (Tudalennau 1 - 5)

   Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir

5. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

6. **Cyflwyniad gan Mr. Andy Jones (Gwasanaeth Prawf) ar Adeiladu Partneriaethau Effeithiol**

7. **Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd:**

   **a)** Diweddariad cyfnodol Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 6 - 22)

   **b)** Diweddariad ar Gyllideb 2015/16 (fel ar 30 Medi 2015) (Tudalennau 23 - 26)

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**8. Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal:**

**a)** Crynodeb o’r cwynion sydd wedi dod i law (Tudalennau 27 - 29)

**b)** Ystyried Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 30 - 32)

**9. Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

Dydd Llun, 25 Ionawr 2016 @ 2.00 pm

Aelodau’r Panel

| | |
|---|---|
| Cyng Amanda Bragg | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Brian Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng Glenys Diskin (Cadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Philip C. Evans Y.H. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng David Griffiths | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng William T. Hughes | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Bernie McCann | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Dilwyn Morgan | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Gethin Williams | Cyngor Gwynedd |

| | |
|---|---|
| Patricia Astbury (Is-Gadeirydd) | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Timothy Rhodes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

Sylwer: mae’n bosibl y bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio i’w ddarlledu’n fyw neu’n ddiweddarach ar wefan Panel yr Heddlu a Throsedd - ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfarfod cyfan neu ran ohono’n cael ei ffilmio. Gallai’r lluniau a’r recordiad sain gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi.

Yn gyffredinol, nid yw’r mannau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag, drwy fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r mannau eistedd cyhoeddus, rydych yn cydsynio i gael eich ffilmio a’r posibilrwydd y bydd y lluniau a’r recordiadau sain hynny’n cael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a / neu hyfforddiant.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â hyn, cysylltwch â chynrychiolydd y Cyfarwyddwr Strategol – Democratiaeth a’r Amgylchedd yn y cyfarfod.

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 9 Tachwedd 2015, am 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Y Cynghorydd Glenys Diskin (Cadeirydd) |
| | Y Cynghorwyr: Brian Blakeley, Amanda Bragg, Philip C. Evans Y.H., Julie Fallon, David Griffiths, William T Hughes a Dilwyn Morgan |
| Aelod Lleyg/ Aelod Cyfetholedig | Pat Astbury a Tim Rhodes |
| Hefyd yn bresennol: | Y Cynghorwyr: Bernie McCann (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) |
| Swyddogion: | Ken Finch (Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd a'r Amgylchedd)), Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a Nia Angharad Jones (Cyfieithydd) |

195. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Stephen Hughes (Prif Weithredwr Dros Dro - Swyddfa i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd), Richard Jarvis (Cyfreithiwr), Winston Roddick CB QC (Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) a'r Cynghorydd Gethin Williams.

196. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Julie Fallon gysylltiad personol, gan fod ei gŵr yn Swyddog yr Heddlu gyda Heddlu Gogledd Cymru.

Datganodd Mrs. Pat Astbury a Mr Tim Rhodes gysylltiad personol a rhagfarnllyd yn eitem 7(b) ar y Rhaglen: Cyfnod Swydd - Aelodau Annibynnol Cyfetholedig, gan mai nhw yw'r ddau Aelod Cyfetholedig a benodwyd i Banel yr Heddlu a Throsedd, y mae'r cyfnod swydd yn berthnasol iddynt ac felly gadawsant y cyfarfod tra roedd yr eitem yn cael ei thrafod.

197. **MATERION BRYS**

Dim.

198. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 21 Medi 2015 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 21 Medi 2015.**

199. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bernie McCann, cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, yn amodol ar gymeradwyaeth y Swyddfa Gartref.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth a'r Amgylchedd) yr oedi wrth benodi Cynghorydd McCann; yr Ysgrifennydd Cartref oedd yn gyfrifol am Baneli'r Heddlu a Throsedd yng Nghymru, ac felly roedd penodiadau aelodau etholedig angen cymeradwyaeth y Swyddfa Gartref.

200. **COFNODION CYFARFOD AELODAU CYFETHOLEDIG / ANNIBYNNOL PANEL HEDDLU A THROSEDD Y GOGLEDD ORLLEWIN**

Cafodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru eu cyflwyno â chofnodion cyfarfod Aelodau Cyfetholedig / Annibynnol Panel Heddlu a Throsedd y Gogledd Orllewin, a gynhaliwyd gan y Swyddfa i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer Manceinion Fwyaf 7 Awst 2015.

Rhoddodd Mrs. Pat Astbury, a oedd wedi mynychu'r cyfarfod, ddiweddariad i Banel yr Heddlu a Throsedd o'r cyfarfod, a oedd yn cynnwys:

- Rôl yr Aelod Annibynnol Cyfetholedig – roedd rhai Aelodau Cyfetholedig yn y Gogledd Orllewin yn teimlo'n ynysig yn eu rolau; fodd bynnag, teimlai Mrs Astbury nad oedd hyn yn wir yng Ngogledd Cymru ac yn ystyried bod holl Aelodau'r Panel yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Holodd y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth a'r Amgylchedd) pam mai Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer Manceinion Fwyaf oedd yn cynnal y cyfarfod, a theimlai y byddai'n fwy priodol i'r Awdurdod Lletyol ei gefnogi. Byddai'r Cyfarwyddwr Strategol yn cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gofyn sut y byddent yn lledaenu'r wybodaeth / allbynnau o'r cyfarfodydd.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Nodi cofnodion cyfarfod Aelodau Cyfetholedig / Annibynnol Panel Heddlu a Throsedd y Gogledd Orllewin a gynhaliwyd ar 7 Awst 2015.**

**(b) Bod y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth a'r Amgylchedd) yn cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar**

**gyfer Manceinion Fwyaf yn gofyn sut y byddai'r wybodaeth / allbynnau o'r cyfarfodydd yn cael eu lledaenu.**

201. **SWYDDOG ARWEINIOL AR GYFER PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth a'r Amgylchedd) adroddiad, a oedd yn hysbysu Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru am newidiadau staff ar lefel Swyddog Arweiniol ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd.

Byddai Mr. Ken Finch, y Cyfarwyddwr Strategol, yn gadael Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ddiwedd mis Ionawr 2016. Oherwydd hynny byddai CBSC, fel yr Awdurdod Lletyol, yn penodi Ymgynghorydd Cyfreithiol a Chyfreithiwr y Panel Heddlu a Throsedd (Mr Richard Jarvis) fel y Swyddog Arweiniol, gan ddod i rym o 1 Chwefror 2016.

O ganlyniad i'r newid hwn, byddai angen diwygio Gweithdrefn Gwyno a Chylch Gorchwyl y Panel Heddlu a Throsedd, gan fod y Panel wedi dirprwyo ei swyddogaethau i'r Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth a'r Amgylchedd) wrth benderfynu ar y mathau o gwynion a dderbynnir a'r strategaeth ar gyfer rheoli cwynion i'w datrys yn lleol. Cytunwyd y bydd y swyddogaethau'n cael eu dirprwyo i swydd Ymgynghorydd Cyfreithiol a Chyfreithiwr y Panel Heddlu a Throsedd, felly ni fyddai unrhyw newidiadau mewn personél yn y dyfodol yn effeithio ar y Weithdrefn Gwyno a'r Cylch Gorchwyl.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Nodi'r newidiadau ar lefel Swyddog Arweiniol ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.**

**(b) Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn dirprwyo ei swyddogaethau mewn perthynas â thrin a phenderfynu ar gwynion penodol a wnaed yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd, i Ymgynghorydd Cyfreithiol a Chyfreithiwr y Panel Heddlu a Throsedd o 1 Chwefror 2016, a bod y Weithdrefn Gwynion a'i Gylch Gorchwyl yn cael eu newid yn briodol.**

202. **YSTYRIED RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cafodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ei gyflwyno gyda'i Raglen Gwaith i'r Dyfodol.

Hysbyswyd y Panel y byddai diweddariad ar yr Uned Rheoli Troseddwyr Integredig yn y cyfarfod nesaf ar 14 Rhagfyr 2015.

Mewn perthynas â'r eitem a drefnwyd ar gyfer 25 Mawrth 2016 yn ymwneud â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol, cytunwyd y dylai'r rhaglen waith gael ei newid i ddarllen 'Sut mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn dal Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn atebol yng Ngogledd Cymru, mewn perthynas â Chynllun yr Heddlu a Throsedd'; fel y

cytunwyd yng nghyfarfod diwethaf y Panel Heddlu a Throsedd 21 Medi 2015.

Gofynnodd y Panel Heddlu a Throsedd hefyd bod eitem ychwanegol yn cael ei chynnwys ar y rhaglen waith, mewn perthynas â dyfodol Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs).

**PENDERFYNWYD-**

**Cytuno ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, yn amodol ar y newidiadau uchod.**

203. **CYFNOD SWYDD – AELODAU ANNIBYNNOL CYFETHOLEDIG**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth a’r Amgylchedd) adroddiad yn gofyn am gadarnhad o'r cyfnod swydd ar gyfer dau Aelod Annibynnol Cyfetholedig ar Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Mae’r Cylch Gorchwyl cyfredol ar gyfer Panel yr Heddlu a Throsedd yn nodi y bydd cyfnod swydd ar gyfer yr Aelodau Cyfetholedig am gyfnod o 3 blynedd, gan ddechrau 19 Rhagfyr 2012 yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, mae'r Trefniadau Panel, a oedd wedi cael eu cyflwyno i'r Swyddfa Gartref yn nodi y bydd y cyfnod swydd tan 31 Hydref yn yr un flwyddyn â’r etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd cyffredin nesaf.

Er mwyn sicrhau dilyniant a phrofiad ar Banel yr Heddlu a Throsedd, yn enwedig yn dilyn etholiad, cytunwyd y dylai'r Cylch Gorchwyl gael ei newid yn unol â'r Trefniadau Panel.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Strategol wybod i’r Panel hefyd y byddai adroddiad ar ddull penodi aelodau etholedig i'r Panel Heddlu a Throsedd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol, er mwyn atgoffa unigolion o'r broses ar gyfer dyrannu seddau ar y Panel Heddlu a Throsedd.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Bod Cylch Gorchwyl Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cael ei ddiwygio fel bod y cyfnod swydd ar gyfer Aelodau Annibynnol Cyfetholedig tan 31 Hydref o'r un flwyddyn â’r etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd cyffredin nesaf.**

**(b) Bod yr Awdurdod Lletyol yn ysgrifennu at Mrs Pat Astbury a Mr. Tim Rhodes yn cadarnhau eu cyfnod swydd fel Aelodau Annibynnol Cyfetholedig.**

**(c) Bod adroddiad ar ddull penodi aelodau etholedig i'r Panel Heddlu a Throsedd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol.**

*(Datganodd Mrs. Pat Astbury a Mr Tim Rhodes gysylltiad personol a rhagfarnllyd yn yr eitem uchod, gan mai nhw yw’r ddau Aelod Annibynnol Cyfetholedig a benodwyd i Banel yr Heddlu a Throsedd, y mae eu cyfnod swydd yn berthnasol iddynt ac felly gadawsant y cyfarfod tra roedd yr eitem yn cael ei thrafod.)*

204. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**

Roedd cyfarfod nesaf Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi'i drefnu ar gyfer dydd Llun, 14 Rhagfyr 2015.

(Daeth y cyfarfod i ben am 2.30 pm)

**Diweddariad ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd**
**14 Rhagfyr 2015**
***Winston Roddick CB QC, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru***

Dyma fy adroddiad i'r Panel am y cyfnod 1 Awst tan ddiwedd Hydref 2015. Nid yw'r adroddiad yn trafod gofynion adrodd statudol penodol o ran y praesept, penodiadau yn fy swyddfa, diwygiadau i fy nghynllun heddlu a throsedd nac yn cynnwys fy adroddiad blynyddol. Mae'n ymwneud yn bennaf â swyddogaeth ehangach y panel o dan adran 28 (6) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) i adolygu neu graffu penderfyniadau a wnaed neu gamau eraill a gymerwyd gennyf fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) ar gyfer gogledd Cymru, ac i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i mi fel Comisiynydd yn hynny o beth. Hefyd, yn unol ag adran 13 (1) o'r Ddeddf, mae'n darparu'r panel â'r wybodaeth y disgwylir i'r Comisiynydd o fewn rheswm ei chyfrannu i'r panel i gyflawni ei swyddogaethau (y ceisiadau penodol).

## Adran Un: Fy ngwaith craffu ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru

Diben y rhan hon o'r adroddiad yw dangos sut yr wyf wedi bod yn cyflawni fy mhrif swyddogaeth o graffu Heddlu Gogledd Cymru. Rwy'n gwneud hynny trwy fesur perfformiad yr heddlu o'r pedwar amcan yn fy nghynllun yn erbyn y mesurau a nodir. Y prif gyfrwng yr wyf yn cyflawni'r swyddogaeth honno yw'r Bwrdd Gweithredol Strategol (SEB) a gadeirir gennyf ac y mae'r prif gwnstabl a'i uwch swyddogion yn eistedd arno.

Fel yr eglurwyd mewn adroddiadau cynharach, cyn pob cyfarfod o'r SEB, mae'r prif gwnstabl yn darparu ystadegau troseddu a gwybodaeth arall gan gynnwys graffiau, tablau a siartiau (o'r math a ddangosir isod) ac mae'n debyg y byddaf yn craffu perfformiad trwy gyfeirio at yr ystadegau a'r tueddiadau hyn yn ogystal â'r mesurau a grybwyllwyd yn gynharach.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar berfformiad yr heddlu yn erbyn y mesurau o fy nghynllun 2015/16 (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015).


## Amcan 1 yr Heddlu a Throsedd: Atal Trosedd

Erbyn hyn mae chwe mesur a ddefnyddir i fesur perfformiad yn erbyn yr amcan hwn. Sef:


1. Cyfanswm lefel troseddu,
2. Lefel y troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr,
3. Lefel y troseddau a ddatrysir yn ôl math,
4. Lefel yr ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB) a gofnodwyd,
5. Lefel byrgleriaeth ddomestig,
6. Nifer y Swyddogion Heddlu Arbennig, gwirfoddolwyr a chadetiaid

Nid yw'r mesurau yn dargedau perfformiad. Eu pwrpas yw fy helpu i gwestiynau ffigurau perfformiad ac egluro’r prif faterion y byddaf yn eu hystyried wrth wneud yr asesiad hwnnw. Mae'r wybodaeth a gyflwynir isod er mwyn galluogi aelodau o'r panel i beidio â chraffu ar berfformiad yr heddlu, ond i ddangos sut yr wyf yn craffu ar yr amcan penodol hwn.

Mae'r siartiau isod, a gynhyrchwyd gan y prif gwnstabl, yn dangos nifer yr holl droseddau a gofnodwyd a throseddau sy’n seiliedig ar ddioddefwyr a gofnodir bob 3 mis ers mis Ebrill 2010:




Ffigwr 1: Yr holl droseddau a gofnodwyd yn fisol hyd at fis Hydref 2015 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)




Ffigwr 2: Troseddau yn seiliedig ar y dioddefwr a gofnodwyd yn fisol hyd at fis Hydref 2015 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)

Mae ffigyrau wythnos 1-30 (1 Ebrill 2015 - 25 Hydref, 2015) yn dangos bod y troseddau cyffredinol a gofnodwyd wedi cynyddu o 2.7% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd a bod troseddau yn seiliedig ar y dioddefwr wedi cynyddu o 3.5%.

Mae troseddau caffael yn parhau i ddangos gostyngiad ym meysydd byrgleriaeth ddomestig ac annomestig, dwyn o siopau a throseddau caffael eraill gyda throseddau cerbydau yn dangos cynnydd bach. Mae hyn wedi’i osod yn erbyn dau faes mawr o droseddau sy'n dangos cynnydd

sef trais a difrod troseddol. Mae gwaith yn cael ei wneud gan yr heddlu i broffilio difrod troseddol i sefydlu a oes angen newid mewn ymateb gweithredol.

Mae Heddlu Gogledd Cymru ar hyn o bryd yn cynllunio ac yn trefnu o amgylch galw penodol a rhagweladwy, ac yn edrych ar y niwed a achosir gan alcohol. Mae rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys gweithrediadau prynu prawf a rheoli canol trefi a chynllunio o amgylch digwyddiadau chwaraeon allweddol lle rhagwelir bydd galwadau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn cynyddu. Mae nifer fawr o weithrediadau hefyd mewn grym mewn perthynas â chynnydd a ragwelir mewn troseddau caffael yn y cyfnod sy'n arwain at gyfnodau siopa prysur.

Yn dilyn ymgyrchoedd llwyddiannus yn y blynyddoedd blaenorol, bu llawer iawn o gynllunio amlasiantaethol manwl ar gyfer Calan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt. Roedd y gweithrediadau hyn yn canolbwyntio ar leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a rhoddodd gyfleoedd ymgysylltu ardderchog, yn enwedig gyda phobl ifanc. Unwaith eto, rhoddwyd llawer iawn o gefnogaeth oddi wrth Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned (PACT) gyda dros 62 o fentrau ar draws y rhanbarth yn cael eu cefnogi, a oedd yn galluogi nifer o weithgareddau dargyfeiriol i ddigwydd yn amrywio o ddigwyddiadau chwaraeon i bartïon Calan Gaeaf. Gweithiodd Heddlu Gogledd Cymru, ar y cyd â'r gwasanaeth tân, gyda chymunedau lleol i hysbysebu a chefnogi arddangosfeydd tân gwyllt wedi'u trefnu er mwyn helpu i leihau'r risg o anaf tra hefyd yn ceisio lleihau defnydd gwrthgymdeithasol o dân gwyllt. Roedd cynnydd bach mewn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn ystod y cyfnod hwn ond dywed yr Heddlu wrthyf bod y lefelau yn gyson â'r blynyddoedd diwethaf, ac wedi'u cadw ar lefel isel oherwydd y cynllunio aml-asiantaethol manwl a bwriadol.


Mae cynllunio aml-asiantaeth i raddau helaeth iawn mewn cam datblygedig ar gyfer cyfnod y Nadolig, gydag ymdrech ar y cyd yn cael ei rhoi ar alcohol, o ran lleihau troseddau treisgar a diamddiffynnedd. Mae ffocws penodol yn cael ei roi ar gam-drin domestig yn y cynlluniau aml-asiantaeth. Mae cyllid wedi unwaith eto ei sicrhau drwy gyfrwng y Bwrdd Cynllunio Ardal i hwyluso gweithio ar y cyd, ac fel gyda blynyddoedd blaenorol bydd presenoldeb yr heddlu yn amlwg iawn i reoli canol ein trefi yn effeithiol dros yr ŵyl, ar y cyd â'r gwasanaethau brys eraill a'n partneriaid trydydd sector. Mae'r marsialiaid tacsis a bugeiliaid y stryd yn ffurfio rhan annatod o'r cynllun.

Mae trwyddedigion, perchnogion busnes a phartneriaid o'r sector cyhoeddus yn gweithio ar ystod o brosiectau sy'n anelu at atal digwyddiadau o drosedd, ymddygiad peryglus a gwrthgymdeithasol sy'n digwydd yng nghanol tref Wrecsam. Mae'r ffocws yn sicr ar ymyrraeth gynnar ac atal problemau rhag gwaethygu ac achosi niwed mwy difrifol. Bydd cyflwyno Canolfan Trin Alcohol a Lles parhaol yn y dref yn ategu'r gwaith hwn gan sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu trin a'u cefnogi yn gynnar, gan atal problemau rhag gwaethygu ac achosi niwed difrifol. Mae'r Ganolfan Trin Alcohol a Lles wedi'i chynllunio i fynd i'r afael â dau nod penodol:

- Darparu gwasanaeth brysbennu a chefnogaeth cymorth cyntaf ar unwaith i ymwelwyr a allai fod wedi eu hanafu neu'n dioddef o ganlyniad i yfed gormod o alcohol
- Darparu cymorth lles i unigolion a allai fod yn ddiamddiffyn ac mewn perygl cynyddol o ganlyniad i yfed gormod o alcohol

Mae'r holl gynlluniau lleol a ledled yr Heddlu yn cael eu cydlynu drwy Adran Diogelwch Cymunedol Heddlu Gogledd Cymru i sicrhau cysondeb a dull cyfannol o wasanaethu angen a galw ar draws y rhanbarth. Cydnabyddir hefyd y potensial ar gyfer mwy o droseddau caffael yng nghanol ein trefi ac felly mae gwelededd ynghyd ag ymgysylltu â safleoedd manwerthu yn cael ei ddefnyddio i leihau cyfleoedd ar gyfer y math hwn o droseddoldeb.

Dros fy nhymor llawn mae cyfanswm y troseddau wedi lleihau o 12.8% (cofnodwyd 42,586 o droseddau yn 2011/12 a chofnodwyd 37,125 yn ystod y 12 mis treigl diwethaf) ac mae troseddau yn seiliedig ar ddioddefwr wedi lleihau o 12.3%.




Ffigur 3: ASB wedi'i gofnodi'n chwarterol tan Hydref 2015 Heddlu Gogledd Cymru)

Mae Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi aros yn dymhorol isel o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae nifer y digwyddiadau yn ystod cyfnod prysur yr haf fel arfer wedi bod yn weddol sefydlog. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad cyffredinol flwyddyn ar ôl blwyddyn o 12.5%. Mae'r cyfnod diweddar yr haf wedi gweld cynllun pwrpasol yn cael ei weithredu ym mhob ardal.

Mae byrgleriaethau domestig wedi gweld gostyngiad o 11.1% hyd yn hyn eleni. Mae ffigurau byrgleriaethau domestig ailadroddus a ffigurau troseddwyr byrgleriaeth ddomestig ailadroddus wedi lleihau dros 40% gan gynnal eu tueddiadau ar i lawr.

Fel y nodwyd uchod, rwyf yn awr yn monitro nifer y swyddogion Heddlu Gwirfoddol, gwirfoddolwyr a chadetiaid gweithgar a gyflogir gan yr heddlu. Mae'n sicrwydd mawr i mi bod nifer y cwnstabliaid arbennig wedi cynyddu o 141 ar adeg cyfarfod y Panel ddiwethaf ym mis Medi i 149 heddiw. Hefyd, yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae nifer o'r heddlu arbennig wedi cwblhau'r broses recriwtio i rôl cwnstabl yn llwyddiannus.

Cafodd Diwrnod Agored Heddlu Gogledd Cymru yn ddiweddar ei reoli'n llwyddiannus gan yr Heddlu Gwirfoddol gyda 29 o Gwnstabliaid Gwirfoddol ar ddyletswydd.

Erbyn hyn mae gan Heddlu Gogledd Cymru 69 o **wirfoddolwyr**. Cafodd 19 sesiwn gyflwyno ym mis Tachwedd ac yn fuan bydd yn chwilio am ymgeiswyr o bartïon â diddordeb ar gyfer rolau newydd o chwaraewyr rôl, aelodau tîm Ansawdd Gwasanaeth a hefyd yn hysbysebu am gydlynydd gwylio cyflymder cymunedol. Mae gwefan gwirfoddolwyr cefnogi'r heddlu wedi cael ei ail-ddatblygu a bydd yn fyw erbyn diwedd mis Tachwedd. Mae ymchwil yn parhau i rôl myfyrwyr gwirfoddoli gan ddisgwyl recriwtio yn gynnar yn 2016.

Mae cyfanswm o 60 o **gadetiaid** bellach wedi ymuno â Heddlu Gogledd Cymru yn dilyn noson gyflwyno dda iawn ar 30 Medi. Maent bellach wedi cychwyn ar raglen ddysgu ddwy flynedd (y cytunwyd arni'n genedlaethol). Maent yn mynychu cyfarfodydd wythnosol a disgwylir iddynt gyflawni o leiaf tair awr y mis o waith gwirfoddol gyda'r heddlu. Buont yn nigwyddiadau coffa

Diwrnod y Cadoediad ym mis Tachwedd. Rwyf wedi trefnu i gyfarfod â nhw yng nghanol mis Rhagfyr mewn digwyddiad atal trosedd maent wedi'i drefnu ym Mangor.


Er y bu cynnydd yn y troseddau a gofnodwyd o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2014, cefais fy nghalonogi o glywed bod ffigurau a ryddhawyd ym mis Hydref gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos o ddiwedd mis Mehefin 2015, Heddlu Gogledd Cymru oedd yn perfformio orau yng Nghymru a'r cyd-drydydd gorau allan o 43 o heddluoedd yn y DU, mewn perthynas â ffigyrau troseddau a gofnodwyd. Ar ddiwedd Mehefin 2015 roedd yr holl droseddau i lawr 3% yng Ngogledd Cymru. Yn wir, roedd Heddlu Gogledd Cymru mewn sefyllfa well na'r rhan fwyaf o heddluoedd yn y mwyafrif helaeth o gategorïau troseddu.

Yr wyf yn hyderus, er ein bod yn awr yn profi cynnydd mewn troseddau, fel y rhagwelwyd, yr ydym yn dal i fod mewn lle da iawn yn genedlaethol mewn perthynas â ffigurau cofnodi troseddau ac mae hyn, ar y cyd â chyfradd cydymffurfio uchel gyda safonau cofnodi troseddau yn parhau i fod yn galonogol iawn.

## Amcan 2 yr Heddlu a Throsedd: Darparu ymateb effeithiol

Y pedwar mesur o'r amcan hwn fel y nodir yn fy nghynllun yw: (1) amseroedd ymateb cyfartalog presenoldeb mewn argyfyngau'r heddlu; (2) nifer y galwadau nad ydynt yn rhai brys a gaiff eu dosbarthu fel galwadau 'a gaiff eu gadael'; (3) y targed arbedion ar gyfer 2015/16 a gyflawnwyd; a (4) adborth a gafwyd drwy arolygon dioddefwyr lefelau bodlonrwydd yn benodol).

Mae'r amser ymateb ar gyfartaledd yn parhau i fod yn sefydlog ar 14.4 munud. Mae hwn yn newid dibwys ar y 14.3 munud a adroddwyd i'r Panel yn ei gyfarfod ym Medi 2015.




Ffigwr 4: Cyfradd galwadau wythnosol nad ydynt yn rhai brys a gaiff eu gadael hyd at wythnos 30 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)

Mae'r gyfradd galwadau a gaiff eu gadael ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai brys yn destun craffu rheolaidd, ac ar hyn o bryd yn sefyll o amgylch tua 5.5%, sydd yn gynnydd pwynt canran o 2.2 flwyddyn ar flwyddyn.

Ysgrifennodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Julian Sandham at bob aelod o'r Panel ar 14 Hydref 2015 i ddarparu crynodeb ysgrifenedig o'r pwyntiau a wnes yng nghyfarfod y Panel 21 Medi ynglŷn â galwadau di-argyfwng a gaiff eu gadael (yn hytrach na galwadau brys 999).

Yn dilyn cyfarfod y Panel ar 21 Medi rydym wedi parhau i fonitro'r sefyllfa ac yn y diweddariad perfformiad ar gyfer cyfarfod SEB 29 Medi, cyfeiriodd pennawd gwybodaeth am y pwnc hwn y cyfeiriwyd at y ganran o alwadau di-argyfwng a gategoreiddiwyd fel bod wedi eu gadael am y cyfnod Ebrill-Awst 2015 fel 5.4% ac roedd hynny ddau bwynt canran yn uwch ar y cyfnod cyfatebol y llynedd. Er y gwerthfawrogir bod trefniadau wrth gefn yn cael eu rhoi ar waith yn yr ystafell reoli ar adegau o alw eithriadol pan, er enghraifft, mae digwyddiad ar yr A55, fy nheimlad oedd bod 5.4% yn uchel (mae'n cyfateb i tua 1,300 o alwadau wedi'u gadael bob mis), a dyna pam y codwyd hyn eto yng nghyfarfod SEB 29 Medi a gwnaed y penderfyniad i ddod â staff ychwanegol i mewn dros dro, tra bod gwaith pellach a thrafodaethau yn cael eu cynnal.

Yr wyf yn deall y gellid priodoli'r cynnydd yn y gyfradd galwadau wedi'u gadael i newidiadau i'r model staffio yn yr ystafell reoli. Yr wyf yn credu ei bod yn hanfodol fy mod yn amlinellu i'r Panel yn y pwynt hwn fod y newidiadau i'r model staffio yn yr ystafell reoli wedi eu gwneud o ganlyniad i'r angen i wneud arbedion ariannol sylweddol ac er bod cynlluniau wedi cael eu rhoi ar waith i liniaru'r newid hwn mewn staffio, rhaid i mi dderbyn y bydd newidiadau o'r fath yn y pen draw yn arwain at rai newidiadau ystadegol, megis cynnydd bychan yn y gyfradd galwadau wedi'u gadael.

Fodd bynnag, er gwaethaf y newidiadau diweddar, mae lefelau galwadau wedi'u gadael yn parhau i fod yn is yn y tymor hir gyda gostyngiad pwynt canran o 2.2 yn nifer y galwadau di-argyfwng wedi'u gadael yn y cyfnod ers 2012.

Rwyf wedi fy sicrhau bod y mesurau canlynol wedi cael neu yn y broses o gael eu cyflwyno i reoli'r gyfradd galwadau wedi'u gadael ac i liniaru'r newidiadau staffio yn yr ystafell reoli:

- Canfod adnoddau yn erbyn y galw drwy alinio sifftiau;
- Defnyddio staff asiantaeth yn ystod cyfnodau prysur tymhorol;
- Gweithio gyda'r tîm ymyrraeth gynnar gyda Phlismona Lleol i gynorthwyo'r gostyngiad mewn galwyr niwsans parhaus;
- Rhyddhau negeseuon i'r cyfryngau yn gyflymach mewn ymateb i ddigwyddiadau mawr;
- Cyflwyno Fforwm Rheoli Cysylltiadau Gogledd Cymru gydag awdurdodau lleol i leihau galwadau diangen a thu allan i oriau gwaith ar gynghorau ac i fagu capasiti.

O ganlyniad i'r newidiadau staffio, mae dulliau eraill o gysylltu ar gyfer aelodau'r cyhoedd, sef Riportio Ar-lein a Sgwrsio Gwe bellach wedi bod yn rhedeg am dri mis ac mae hyn wedi gweld dros 1000 o gysylltiadau'n cael eu gwneud.

Mae dros 50% o'r staff yn Ystafell Reoli'r Heddlu bellach wedi cael hyfforddiant diamddiffyn ac yn awr yn gallu asesu pa mor ddiamddiffyn yw galwr. Dylid nodi bod yn rhaid i'r heddlu gadw cydbwysedd rhwng sicrhau bod staff ar gael i fynychu hyfforddiant o'r fath, cymryd eu hamser i asesu diamddifynnedd yn ystod galwadau, yn ateb galwadau'n gyflym ac yn llwyddo i gadw'r gyfradd galwadau wedi'u gadael i lawr.

Mewn perthynas ag ansawdd y gwasanaeth, mae tueddiadau cynyddol ar gyfer bodlonrwydd dioddefwyr yn parhau ar lefel yr Heddlu, ond yn arbennig felly ar gyfer camau Dilynol lle cyflwynwyd prosesau newydd yn gynharach yn y flwyddyn. Mae bodlonrwydd dioddefwyr gyda chamau dilynol wedi cynyddu o 72.1% yn ystod y flwyddyn dreigl ddiwethaf (hyd at fis Medi 2014) i 76.7% yn ystod y flwyddyn dreigl gyfredol (hyd at Medi 2015). Mae hyn wedi arwain at Heddlu Gogledd Cymru yn symud i fyny 27 o leoedd yn y safleoedd cenedlaethol o ran Camau

Dilynol. Mae boddhad gyda'r Profiad Cyfan wedi cynyddu o 80.5% yn ystod y flwyddyn dreigl ddiwethaf, i 82.1% yn ystod y flwyddyn dreigl gyfredol.

Mae bodlonrwydd dioddefwyr byrgleriaeth annedd hefyd yn dangos gwelliannau, i fyny yn sylweddol, er bod rhwyddineb cyswllt wedi dangos gostyngiad bach o 1.5 pwynt canran.

## Amcan 3 yr Heddlu a Throsedd: Lleihau niwed a'r risg o niwed

Mae gan fy nghynllun ar gyfer 2015/16 bedwar mesur ar gyfer penderfynu pa mor effeithiol yw perfformiad yr heddlu o ran yr amcan hwn, Y rhain yw: nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol (KSI) mewn gwrthdrawiadau ffyrdd, y lefel o droseddu dro ar ôl tro (gan gynnwys troseddwyr ailadroddus risg uchel o ran trais domestig), nifer yr arestiadau ac erlyniadau o bobl sy’n ecsbloetio plant yn rhywiol, a'r nifer o achosion o ddelweddau anweddus o blant a erlynwyd.

Mae anafusion KSI eleni hyd yma (hyd at fis Awst) wedi gweld gostyngiad o 36%, i lawr o 200 i 128. Ar y pwynt hwn yn y flwyddyn, mae’r lefelau’n aros yn sefydlog ac yn unol ag effeithiau tymhorol.

Dros y pedair blynedd diwethaf bu gostyngiad o 15.7% mewn anafiadau KSI.

Mae nifer yr anafusion KSI beiciau modur wedi gweld gostyngiad parhaus yn ystod 2015. Mae gweithrediadau yn parhau ac mae negeseuon cyfryngau cymdeithasol ac i'r wasg yn parhau i annog presenoldeb mewn gweithdai Beicio Diogel.

Mae anafusion KSI beiciau pedal yn parhau i ostwng er bod dynion yn y grŵp oedran 30-49 yn parhau i gyfrif am y rhan fwyaf o'r anafiadau.

Mae KSI gyrwyr Ifanc wedi bod yn olynol uwch na’r cyfartaledd cymedrig yn Wrecsam yn ddiweddar. Mewn ymateb i'r cynnydd hwn mae Ymgyrch Ffrindiau Peryg Bywyd wedi bod yn targedu gyrwyr ifanc yn yr ardal. Ar ben hynny, mae gwaith partneriaeth gydag asiantaethau eraill yn ceisio addysgu gyrwyr ifanc am ganlyniadau gyrru gwael.

Mae dadansoddiad wedi cael ei gynnal yn lleol o amgylch y mater o bobl ifanc yn yfed a gyrru. Mae rhagor o waith i ddeall y materion sy'n ymwneud â’r grŵp oedran hwn a nodi tueddiadau er mwyn caniatáu targedu â ffocws ar ardaloedd a throseddwyr yn parhau.

Mewn perthynas ag Ecsbloetio Plant yn Rhywiol (CSE) cafwyd 84 o arestiadau troseddwyr CSE eleni hyd yn hyn, sy'n gynnydd sylweddol ar y 10 o arestiadau am y cyfan o’r flwyddyn ddiwethaf. Mae arestiadau sy’n gysylltiedig â CSE wedi codi'n sylweddol eleni hyd yma o ganlyniad i gynnydd mewn gweithgareddau ac adnoddau gweithredol sydd wedi cael eu targedu’n rhagweithiol tuag at CSE, a'r mecanweithiau adnabod a chofnodi gwell.

Mae prosiect brysbennu newydd yn Wrecsam yn anelu at fynd i'r afael â'r nifer o bobl a gedwir dan adran 136 iechyd meddwl. Mae nyrs arweiniol glinigol wedi cael ei recriwtio i reoli'r prosiect gyda disgwyl i’r staffio ddigwydd o fewn 8 wythnos. Mae'r Grŵp Iechyd Meddwl Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru yn parhau i fonitro'r holl faterion Iechyd Meddwl ac yn adrodd i Fwrdd Cyswllt Cyfiawnder Troseddol.

Er bod troseddau a adroddwyd gan ddioddefwyr parhaus wedi cynyddu dros gyfnod yr haf (dywedodd Heddlu Gogledd Cymru yn y cyfarfod SEB ar 10 Tachwedd y bu cynnydd o 3.5%

mewn troseddu domestig parhaus rhwng mis Ebrill a mis Medi 2015), mae nifer y gwir dioddefwyr parhaus yn sefydlog, disgwylir i hyn barhau a chynnal sefydlogrwydd. Gwelodd aildroseddu gynnydd bach ym mis Ebrill, ond dychwelodd i lefelau sefydlog o fis Mehefin a thrwy gydol yr haf.

## Amcan 4 yr Heddlu a Throsedd: Magu partneriaethau effeithiol

Mae hwn yn amcan yr un mor bwysig ag unrhyw un o'r tri arall, ond nid yw ei berfformiad mor agored i fesur ystadegol, ac nid wyf wedi amodi unrhyw fesurau yn y cynllun ar gyfer mesur ei berfformiad.

Ar dudalennau 10-12 isod bydd aelodau'r panel yn gweld fy mod yn ymgymryd â nifer fawr o weithgareddau gyda fy mhartneriaid a'r gymuned leol. Yn ychwanegol at y rhai a restrir isod, mae rhai o'r gweithgareddau partneriaeth rwyf wedi ymgymryd â nhw yn ddiweddar yn cynnwys craffu ar effeithiolrwydd y gweithrediadau Calan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt amlasiantaethol; mynychu lansiad y Ganolfan Trin Alcohol newydd yn Wrecsam a'r ymgyrch yfed a gyrru Nadolig; gweithio gyda phartneriaid i daclo nifer o bobl sy'n cael eu cadw o dan adran 136 iechyd meddwl; craffu ar y defnydd o warediadau tu allan i'r llys gyda fy mhartneriaid; gwneud gwaith pellach ar ein Prosiect Plant yr Effeithir Arnynt gan Garcharu Rhieni yn ogystal â chwrdd â phartneriaid ar Grŵp Ymgynghorol Plant a Theuluoedd Troseddwyr Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y rhan olaf eu harolygiad PEEL (Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu) gwelodd HMIC fod gan Heddlu Gogledd Cymru berthynas dda gydag ystod eang o bartneriaid.

## Yr heddlu a throsedd yn eich ardal chi

Mae gwefan y swyddfa gartref http://www.police.uk yn rhoi gwybodaeth ystadegol am droseddau a digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n benodol i god post.

## Adran Dau: Diweddariadau Cyffredinol

Yn yr adran hon rwy'n darparu crynodeb gryno i'r Panel ynglŷn â'r prif bethau yr wyf wedi'u gwneud ers cyfarfod diwethaf y Panel.

## Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd

Bydd y Panel yn ymwybodol y cefais fy ethol yn gadeirydd annibynnol cyntaf y Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd (APCC) ym mis Hydref.

Mae bod yn gadeirydd o'r APCC yn anrhydedd mawr ac yn gyfrifoldeb mawr, ond hoffwn eich sicrhau mai fy mhrif bryder bob amser fydd pobl a phlismona Gogledd Cymru, ac ni fydd fy rôl fel cadeirydd yn gwanio fy effeithiolrwydd fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru o gwbl.

## Adolygiad cyllid yr Heddlu

Bydd y Panel hefyd yn ymwybodol o'r ffocws cyfryngau lleol a chenedlaethol a'r ddadl ynghylch cyllid ar gyfer gwasanaeth yr heddlu yng Nghymru a Lloegr.  Dwysaodd y ddadl hon yn dilyn y digwyddiadau trasig ym Mharis yn ddiweddar.

Wrth ddadorchuddio ei Adolygiad o Wariant yn ddiweddar nododd y Canghellor "....ni fydd unrhyw doriadau o gwbl yng nghyllideb yr heddlu. Bydd amddiffyniad mewn termau real ar gyfer cyllid yr heddlu."  Mae hyn yn destun optimistiaeth gofalus.

Bydd y Panel wedi gweld yn y cyfryngau fy mod wedi bod yn tynnu sylw'r Llywodraeth at y risgiau a fyddai'n codi ar gyfer ein cymunedau pe bai'r toriadau ar y raddfa y dwedwyd wrthym eu disgwyl yn digwydd i gyllideb yr heddlu, yn enwedig yn sgil yr ymosodiadau terfysgol ym Mharis. Efallai bod hyn wedi cael yr effaith yr oeddem wedi gobeithio amdano.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae llawer nad ydym eto'n ei ddeall cyn belled bo'r setliad yn y cwestiwn. Byddwn yn gwybod mwy pan fydd y dyraniadau ar gyfer heddluoedd unigol yn cael eu cyhoeddi ar 17 Rhagfyr, ac unwaith y byddwn wedi cael y cyfle i edrych ar fanylion cain hyn. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel yn fwy manwl yng nghyfarfod mis Rhagfyr wrth i fwy o wybodaeth yn dod i law yn y cyfamser.

## Diwygiadau i'r Cynllun Heddlu a Throsedd

Mae'r ffenestr ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer yr adolygiad diweddaraf o fy nghynllun heddlu a throseddu bellach ar agor.  Mae cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori wedi cael eu trefnu ar draws y rhanbarth i gasglu barn y cyhoedd ynghylch plismona yng Ngogledd Cymru.

| Dyddiad/Date | Lleoliad/Venue | Tref/Town | Gwesteiwr/Host |
|---|---|---|---|
| 30.11.15 @ 6pm | Y Ganolfan / Arts Centre | Porthmadog | CHTh/PCC Winston Roddick CB, QC |
| 01.12.15 @ 6pm | Canolfan Archifau / Archive Centre | Llangefni | CHTh/PCC Winston Roddick CB, QC |
| 03.12.15 @ 6pm | Eglwys Fethodistaidd y Drindod / Trinity Methodist Church | Prestatyn | DGHTh/DPCC Julian Sandham |
| 08.12.15 @ 6pm | Capel y Ffynnon, Ffordd Penrallt | Bangor | DGHTh/DPCC Julian Sandham |
| 10.12.15 @6pm | Cyngor Tref Cei Connah/Connah's Quay Town Council, Fron Road | Cei Connah Connah's Quay | CHTh/PCC Winston Roddick CB, QC |
| 15.12.15 @ 6pm | Neuadd y Dref Abergele / Abergele Town Hall | Abergele | CHTh/PCC Winston Roddick CB, QC |
| 05.01.16 @ 6pm | Eirianfa Dinbych | Dinbych/Denbig h | DGHTh/DPCC Julian Sandham |
| 11.01.16 @ 6pm | Canolfan Gymunedol Daniel Owen Community Centre | Yr Wyddgrug/Mold | DGHTh/DPCC Julian Sandham |
| 12.01.16 @ 6pm | Prifysgol Glyndŵr University | Wrecsam/ Wrexham | DGHTh/DPCC Julian Sandham |
| 13.01.16 @ 6pm | Neuadd y Pentref / Village Hall | Rhiwabon /Ruabon | CHTh/PCC Winston Roddick CB, QC |
| 14.01.16 @ 6pm | Clwb Golff Dolgellau Golf Club | Dolgellau | CHTh/PCC Winston Roddick CB, QC |

Wrth gwrs, mae croeso i aelodau'r panel yn unrhyw un o'r digwyddiadau uchod. Yn ogystal, mae arolwg ar-lein ar gael drwy fy ngwefan. Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried wrth adolygu fy nghynllun, ac yr wyf yn gobeithio ei gyflwyno i'r panel yn y cyfarfod fis Ionawr 2016.

## Ymgysylltu a Chyfathrebu

Rhan o fy rôl yw darparu gwybodaeth a galluogi’r gymuned i ymgysylltu â phlismona. Ers cyfarfod diwethaf y panel, rwyf wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth o fy rôl ac i ddarparu cyfle i gymunedau Gogledd Cymru ddweud eu dweud ynglŷn â throsedd a phlismona. Mae'r cyfarfodydd hyn yn ychwanegol at yr ymgysylltiad dyddiol sydd gennyf gyda swyddogion o Heddlu Gogledd Cymru ac mae'r canlynol yn rhai uchafbwyntiau o'r misoedd diwethaf:

Ym mis Awst, mynychais yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod, Sioe Môn, a Sioe Dinbych a Fflint. Mae fy mhresenoldeb yn y digwyddiadau hyn yn rhoi cyfleoedd i mi ymgysylltu â chymunedau lleol, fy mhartneriaid 3ydd sector, sefydliadau megis yr undebau ffermio, a swyddogion yr heddlu lleol ac yn galluogi pobl i ddweud eu dweud am drosedd a phlismona.

Yn ystod mis Awst, fe fûm hefyd yn cyfarfod â’r gwleidyddion lleol Liz Saville Roberts AS a Janet Howarth AC yn ogystal â Wendy Williams o HMIC a Jan Williams o'r IPCC.

Ym mis Medi mynychais Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan yng Nghaerdydd yn ogystal â chyfarfod Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru ym Mae Colwyn. Fe fûm hefyd mewn cyfarfod gweinidogol gyda Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Adnoddau Naturiol i drafod gweithredu Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Cydbwyllgor Goruchwylio’r Gogledd Orllewin, cyfarfod gyda chynrychiolwyr o HMCTS i drafod yr Ymgynghoriad Llysoedd, Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, cyfarfod â'r Athro Graham Upton o Brifysgol Glyndŵr a chynnal cymhorthfa gyhoeddus yn Wrecsam. Rwyf hefyd wedi mynychu sawl cyfarfod i drafod goblygiadau Cyllideb y Swyddfa Gartref, cyfarfod â Phrif Weithredwr Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, a Diwrnod Agored Heddlu Gogledd Cymru.

Rwyf hefyd wedi ymweld â Bangor i weld o lygad y ffynnon y gwaith partneriaeth gwych ym Maesgeirchen, cynnal cyfarfod gyda'r Cyng Elen Walker Jones ac aelodau eraill o grŵp cymunedol Maes Tryfan i drafod materion plismona a throseddau ac yn eu hardal leol, a chyfarfod ag aelodau Shopwatch.

Tua diwedd mis Medi, mynychais y digwyddiad Arweinwyr Daily Post cyntaf ym Mhrifysgol Bangor, Seremoni Wobrwyo Gwasanaeth Hir Heddlu Gogledd Cymru, cyfarfod â recriwtiaid newydd a mynychu agoriad Canolfan Gymorth Dioddefwyr Gogledd Cymru yn Llanelwy.

Ym mis Hydref, mynychais gyfarfod o Grŵp Plismona Cymru Gyfan, roeddwn yn siaradwr gwadd yng Nghylch Cinio Llanfair PG, cynnal fy Seremoni Gwobrwyo'r Gymuned, a mynychu nifer o gyfarfodydd APCC (gan gynnwys cyfarfod y Bwrdd, Cyfarfod Cyffredinol, a chyfarfod Grŵp Sefydlog). Fe fûm hefyd yn cyfarfod â Mary Calam, Cyfarwyddwr Cyffredinol Troseddau a Phlismona y Swyddfa Gartref, a Gerry Murray a Susan Langley o Crimestoppers i drafod eu gwaith yn lleol, yn ogystal ag ymweld â Llangefni a Dinbych i gyfarfod â phobl leol a pherchnogion busnes i drafod materion trosedd a phlismona yn y ddwy dref. I orffen y mis cefais fy mriffio ar waith gwerthfawr Swyddog Cyswllt Pêl-droed Heddlu Gogledd Cymru.

Ers cyfarfod diwethaf y panel, yn ogystal â chyfarfod gyda chynrychiolwyr y gymuned, partneriaid ac aelodau’r cyhoedd, rwyf wedi cynnal nifer o weithgareddau cyfryngau allweddol. Mae’r rhain wedi cynnwys:

## Consultation

## Your community, your voice

[Irish Traveller Martin tackles “insidious” Hate Crime]

[Hydra Training]

[Crackdown on Boy Racers]

[Police boss urges more people to report “abhorrent” hate crime]

[We won’t go soft on burglary and drug offences in North Wales]

[New eco-friendly police station is a step closer]

[Visit by Top Cop from Down Under]

[Community Awards 2015]

## Y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd, Julian Sandham

Gofynnodd y Panel gael ei hysbysu am waith y dirprwy gomisiynydd. Mae’n gwbl ymroddedig i fy rhaglen waith brysur iawn, ac fe’i nodir isod:

Mae ymrwymiadau’r dirprwy gomisiynydd ers cyfarfod y Panel diwethaf wedi cynnwys y gweithgareddau craffu canlynol:

- Cyfarfod gyda chynrychiolwyr o'r bartneriaeth Go Safe;
- Mynychu grŵp Defnyddwyr Cofnodi Trosedd Heddlu Gogledd Cymru er mwyn craffu materion cydymffurfiaeth cofnodi troseddau;
- Mynychu ac arsylwi modiwl arweinyddiaeth system hyfforddiant 'Hydra' yr heddlu a oedd yn cynnwys defnyddio'r Cod Moeseg;
- Mynychu pob cyfarfod o'r Grŵp Plismona Cymru yng Nghaerdydd;
- Ymweld â'r Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr, Llanelwy;
- Mynychu cyfarfod chwarterol gyda'r Dirprwy Brif Gwnstabl ac Uwcharolygydd yr adran Safonau Proffesiynol;
- Mynychu cyfarfod Bwrdd Cynllunio Strategol yr heddlu;
- Derbyn gwybodaeth gan yr heddlu ynghylch arolygon dwyieithog;
- Mynychu cyfarfod dadfriffio yn dilyn arolygiad HMIC;
- Mynychu cyfarfod y Grŵp Rheoli Troseddwyr Integredig Rhanbarthol;
- Mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Hyder a Safonau Moesegol yr heddlu;
- Mynychu ac arsylwi dwy sioe deithiol y Prif Swyddog.
- Mynychu cyfarfod cynhadledd ffôn o'r grŵp llywio Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan a mynychu cyfarfodydd paratoi;
- Cadeirio dau gyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Integredig Cyfiawnder Cymunedol Gogledd Cymru;
- Mynychu cyfarfod o Banel Cydweithio Fforensig y Gogledd Orllewin;
- Derbyn gwybodaeth gan yr heddlu ynghylch Adroddiad 'Building the Picture' yr HMIC;
- Derbyn gwybodaeth gan yr heddlu ynghylch yr adolygiad effeithlonrwydd.
- Cadeirio cyfarfod Bwrdd Llywodraethu y Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr;
- Mynychu ac arsylwi dau gyfarfod aur o’r Ymchwiliad Plismona Cudd Pitchford

Mae ei ymrwymiadau wedi cynnwys y gweithgareddau ymgysylltu cymunedol canlynol hefyd:

- Rhoi araith mewn digwyddiad rhyng-grefyddol yn Neuadd y Dref Bae Colwyn;
- Mynychu sioe Dinbych a Fflint;
- Mynychu cyfarfod y Bwrdd Gwasanaeth Lleol yn Wrecsam;
- Cyflwyno araith allweddol yn lansiad y Bartneriaeth Affinity, Bae Colwyn;
- Siarad â grŵp o ddisgyblion Ysgol Bod Alaw a oedd ar ymweliad â'r Pencadlys fel rhan o Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan;
- Cyfarfod gyda HMCTS ynghylch ei ymgynghoriad ar gau llysoedd;
- Cymryd rhan mewn ymweliad ymgysylltu â'r gymuned ym Mangor a oedd yn cynnwys cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr o Bartneriaeth Maesgeirchen, trigolion o ardal Coed Mawr / Ffordd Caernarfon, a chynrychiolwyr Shopwatch / Pubwatch;
- Mynychu Seremoni Wobrwyo Gwasanaeth Hir yr Heddlu;
- Mynychu a chymryd rhan yn agoriad ffurfiol y Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr;
- Cyflwyno araith allweddol yn lansiad y ffilm 'Flipped It' ym Mae Colwyn;
- Mynychu a rhoi araith yn noson gyflwyniad y Cadetiaid ';
- Mynychu cyfarfod o Lys Prifysgol Glyndŵr;
- Cyfarfod gyda'r Cynghorydd Philip Evans, Peter Brown a swyddogion o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynghylch TCC;
- Mynychu cyfarfodydd y Grŵp Trawsrywedd Cymunedol, Grŵp Cydraddoldeb i Bobl Anabl, a Phrif Weithredwyr y Cyngor Gwirfoddol, a rhoi cyflwyniad am y Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr i bob cyfarfod;
- Ymweld â chanolfan galw i mewn Tan y Maen ym Mlaenau Ffestiniog - trafodaeth gyda Mr Phil Griffiths a'i dîm ynghylch plant yr effeithir arnynt gan rieni yn y carchar;
- Mynychu Gwobrau Best Bar None yn Wrecsam a chyflwyno un o'r gwobrau.
- Cwrdd disgyblion o Ysgol y Berwyn yng Ngorsaf Heddlu Bala;
- Mynychu cyfarfod o Bartneriaeth Maesgeirchen ac ymgynghori ag aelodau ar y diwygiad i'r Cynllun yr Heddlu a Throsedd;
- Mynychu a chymryd rhan yn Seremoni Gwobrau'r Gymuned y Comisiynydd;
- Ymweld â Llangefni;
- Cynnal dau ymweliad ymgysylltu â'r gymuned i Ddinbych;
- Wedi mynychu cyfarfod ymgynghori'r Prif Weinidog 'Cyswllt Carwyn' yng Nghaergybi.

## Comisiynu

Yr wyf yn parhau i fonitro'r prosiectau / gwasanaethau sydd wedi cael cyllid er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi gwerth am arian i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru, a'u bod yn cefnogi darparu fy Nghynllun Heddlu a Throseddu. Gallaf sicrhau'r Panel fod proses yn ei lle i ailddosbarthu cyllid yn ôl yr angen.

Yn ddiweddar, ysgrifennodd fy swyddfa at y darparwyr gwasanaeth a gomisiynwyd yn ystod 2015/16 er mwyn sefydlu eu gofynion ar gyfer 2016/17. Bydd penderfyniadau comisiynu yn cael eu gwneud cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl diwygio'r cynllun heddlu a throsedd.

## Cyllideb Gyfranogol:

Fel mae'r Panel yn ymwybodol, mae'r cynllun cyllidebu cyfranogol hynod lwyddiannus yn cael ei gynnal eto eleni. Cafodd ei lansio ar 10 Awst ac roedd gan grwpiau cymunedol ar draws Gogledd Cymru tan 2il Hydref i wneud cais am arian. Cyfanswm y cyllid sydd ar gael i grwpiau cymunedol yw £42,000 ac yn benodol ar gyfer prosiectau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a thaclo trosedd ac anrhefn. Bydd y grwpiau buddugol yn cael eu dewis drwy bleidlais gyhoeddus rhwng 26 Hydref a 27 Tachwedd (ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn roedd y cyfnod pleidleisio dal ar agor). Mae'r cynllun yn cael ei ariannu ar y cyd gan yr arian a adenillwyd drwy'r Ddeddf Elw Troseddau a Chronfa'r Comisiynydd.

Mae'r arfarniad o'r holl brosiectau a gyflwynwyd ar gyfer 'Eich Cymuned, Eich Dewis' eleni wedi cael ei gwblhau. Mae rhestr fer o ymgeiswyr wedi cael ei dewis gan banel a bydd y cyhoedd yn penderfynu pa grwpiau i'w cefnogi gyda phleidlais drwy'r ddwy wefan a'r cyfeiriad e-bost pwrpasol.

Y prosiectau a gafodd eu henwebu ym mhob sir yw:

| **Ynys Môn** | |
|---|---|
| Clwb Pêl-droed Holyhead Hotspurs | Ailwampio ardal wylwyr dan do. |
| Cymdeithas Lotments Ffordd Plas | Offer Diogelwch |
| Tudur Cyf Llangefni | Rhaglen Hyfforddiant TG Cymunedol |
| Pantry No.6 | Costau Gwella Adeiladau |
| The Aloud Charity | Only Holyhead Boys Aloud |

| **Conwy** | |
|---|---|
| Geidiaid Llanrwst | Diweddaru Neuadd y Geidiaid |
| Clwb Pêl-droed Llandudno yn y Gymuned | Diogelwch Beicio |
| Ymddiriedolaeth Gelf Conwy | Prosiect Ystafell Dywyll |
| Clwb Pêl-droed Iau Llanrwst | Hyfforddi Staff ac Offer |
| Ymddiriedolaeth Gadwraeth Llanddulas a Rhyd y Foel | Gwylio Cyflymder yn y Gymuned |

| **Sir Ddinbych** | |
|---|---|
| Siop Gyngor Budd-daliadau | Gostwng trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy gyngor a chefnogaeth |
| Grŵp Gweithredu Cymunedol Prestatyn a Gallt Melyd | SEEDS (Social Education Exploring Development Skills) |
| Dragon Riders | Darparu cefnogaeth gydag offer ar gyfer cyfleuster reidio BMX. |

| **Sir y Fflint** | |
|---|---|
| Gofal a Thrwsio Gogledd Ddwyrain Cymru | Lighting Lives |
| Cymdeithas Treftadaeth a Chadwraeth yr Hôb a Chaergwrle | Gwylio Cyflymder Cymunedol Abermorddu a Chaergwrle |
| Ymddiriedolaeth Plas Derw Cyf | 'Seed to Sideboard' |
| Cymdeithas Preswylwyr a Thenantiaid Saltney | Uwchraddio TCC |

| | |
|---|---|
| Ferry | |
| Coleg Cymunedol WEA YMCA Cymru | Goliau Gyda'n Gilydd |

| **Gwynedd** | |
|---|---|
| Parciau Cymunedol Harlech | Darparu nawdd ar gyfer ffens metel newydd. |
| Partneriaeth Maesgeirchen | Safle Hamdden Min y Ddôl (Playpod ac ategolion) |
| Gwynjim Gwymnastics | Caffi Cymunedol. |

| **Wrecsam** | |
|---|---|
| Clwb Pêl-droed dan 15 Acrefair | Nawdd ar gyfer offer a gwella'r cyfleuster. |
| Groundwork North Wales | 'Food for thought'. |
| Grŵp Llywio Champions House | 'The Narrowboat to Recovery'. |
| Byddin yr Iachawdwriaeth Wrecsam | Galw Mewn ar gyfer y Digartref. |
| Clwb PHAB Wrecsam a'r Cylch | Gwasanaethu'r cerbyd. |

| **Prosiectau Rhanbarthol Gogledd Cymru** | |
|---|---|
| Boys and Girls Clubs of Wales | A Sporting Chance |
| DangerPoint | The Point |
| Eternal Community Media | Life Without Limits |
| JIGSAW | Piece Together |
| Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru | Gweithdai Atal Trosedd |
| 'Horse Watch' Gogledd Cymru | Diogelwch Ceffylau |

## Gwobrau Cymunedol y Comisiynydd:

Yn dilyn llwyddiant ysgubol Gwobrau Cymunedol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd cyntaf erioed y llynedd, penderfynais eto eleni i gynnal seremoni arall i ddathlu arwyr di-glod ein cymunedau yng ngogledd Cymru.

Unwaith eto, gwelais nad oedd prinder o bobl a oedd wedi mynd gam ymhellach i gadw eu cymunedau'n ddiogel, er mwyn cefnogi Heddlu Gogledd Cymru, i gefnogi adferiad a hefyd i gefnogi'r rhai mwyaf diamddiffyn ac mewn angen.

Sefydlais y gwobrau er mwyn dangos cydnabyddiaeth gyhoeddus i'r rhai sy'n gwneud gwaith gwerthfawr yn y gymuned i leihau troseddu, cadw cymunedau'n ddiogel, cefnogi dioddefwyr a hwyluso adsefydlu. Fy nod wrth sefydlu'r gwobrau oedd cydnabod y gwaith rhagorol ac i annog eraill i ddilyn yr esiampl dda a osodwyd.

Cafodd y digwyddiad ei gynnal mewn lleoliad canolog yn ardal yr Heddlu yng Ngwesty Kinmel Manor, Abergele ar 22 Hydref 2015. Roedd yn wir ddathliad o waith caled a gofal aelodau'r gymuned, o'r gwaith gwych y maent wedi'i wneud a'r gwerthfawrogiad a deimlir am eu hymdrechion. Mae'r enillwyr yn bobl arbennig iawn. Eleni, fel y llynedd, rhoddodd bleser mawr i mi daflu goleuni ar y da maent yn ei wneud i helpu i gadw Gogledd Cymru yn lle diogel i fyw a gweithio. Mae'r fenter hon yn cael ei derbyn yn dda ymhlith y cymunedau yr wyf yn eu gwasanaethu, y partneriaid yr wyf yn gweithio ochr yn ochr â nhw ac wrth gwrs yr Heddlu ei hun.

## Cyllideb

Mae manylion cyllidebau refeniw a chyfalaf 2015/16 wedi eu cynnwys mewn adroddiad ar wahân.

## Cydbwyllgor Archwilio

Cyfarfu'r Cyd-bwyllgor Archwilio ar 22 Medi 2015 ac yn seiliedig ar y sicrwydd a roddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl, cytunodd y Pwyllgor fod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei lofnodi gan y Prif Swyddogion Cyllid fel bod yn rhoi 'darlun gwir a theg' ac nad oes unrhyw resymau hysbys pam na ddylai Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl gymeradwyo Datganiadau o Gyfrifon ar gyfer 2014-15.

## Diweddariad HMIC

Ers mis Medi 2015, dim ond un arolwg mae Heddlu Gogledd Cymru wedi'i gael. Ar 19 Hydref, 2015 daeth HMIC i ardal yr heddlu i wneud y drydedd rhan a'r olaf o'u harolygiad PEEL 2015 (Effeithiolrwydd Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu). Roedd yr arolygiad hwn yn ymdrin â'r pileri Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb ac yn cynnwys nifer o feysydd plismona, gan gynnwys sut mae Heddlu Gogledd Cymru yn atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac yn cadw pobl yn ddiogel. Roedd hefyd yn edrych ar ba mor effeithiol mae'r heddlu wrth ymchwilio i droseddau a rheoli troseddwyr, mynd i'r afael â throseddau difrifol ac wedi'u trefnu (gan gynnwys ei drefniadau ar gyfer cyflawni ei gyfrifoldebau plismona cenedlaethol), dealltwriaeth, ymgysylltu â phobl a thrin y bobl y mae'n eu gwasanaethu yn deg, er mwyn cynnal a gwella ei gyfreithlondeb, ac i ba raddau y mae'r penderfyniadau a wneir ar y defnydd o Stopio a Chwilio a Taser, yn deg ac yn briodol. Gwnaeth HMIC sylwadau cadarnhaol am y ffordd rwyf wedi cynnwys cyfeiriadau at y meysydd hyn yn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

Roedd yr arolygiad yn gadarnhaol iawn mewn nifer o feysydd, ond roedd hefyd yn nodi rhai meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, yr wyf wedi fy sicrhau bod y meysydd hyn eisoes wedi cael eu nodi gan yr heddlu a bod rhaglen ar y gweill i'w hadolygu yn llawn, a dod o hyd i atebion. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu drwy fyrddau llywodraethu perthnasol yr heddlu a bydd diweddariadau cyfnodol yn cael eu darparu i fy Mwrdd Gweithredol Strategol.

Cafodd y canlynol eu nodi gan HMIC fel arfer da yn lleol:

- Mae gan Heddlu Gogledd Cymru werthoedd ac egwyddorion wedi'u nodi'n glir sy'n cael eu hatgyfnerthu drwy'r rhaglen "It Matters". Mae'r rhaglen hon yn pwysleisio pwysigrwydd ymddygiad moesegol a phroffesiynol, a thrin pobl â pharch.

- Mae Heddlu Gogledd Cymru yn dangos ymrwymiad clir i atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a chadw pobl yn ddiogel. Rhoddir pwyslais ar hyn, gan uwch aelodau o'r heddlu a chan y PCC, gyda blaenoriaethau penodol a nodir mewn perthynas â'r meysydd hyn o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd cyfredol. Gwelodd HMIC fod y blaenoriaethau hyn yn cael eu deall yn dda iawn gan staff ar bob lefel o fewn y sefydliad.

- Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi gwella'r ffordd y mae'n ymgysylltu â dioddefwyr trosedd ac mae wedi datblygu prosesau effeithiol i sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu hysbysu. Mae'r heddlu'n defnyddio arolygon i wirio pa mor effeithiol y mae hyn yn cael ei wneud ac mae ei ddata diweddaraf yn dangos lefelau uchel o foddhad ymhlith pobl sydd wedi riportio trosedd.

- Mae'r heddlu wedi cynyddu ei ffocws yn sylweddol ar gyswllt â dioddefwyr ac ansawdd y gwasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hyn wedi arwain at yr heddlu yn symud o

fod yn 40fed yn genedlaethol yn 2014, i 13 yn 2015 ar gyfer cyfraddau bodlonrwydd dioddefwyr.

- Mae gan yr heddlu gyfanswm o 110 gitiau corff ar gael i'w defnyddio gan swyddogion ar batrôl. Roedd HMIC yn falch o nodi bod angen i bob swyddog ag offer recordio fideo i recordio pob digwyddiad stopio a chwilio.

- Mae cyfran sylweddol o'r stopio a chwilio a gynhaliwyd gan Heddlu Gogledd Cymru yn ymwneud â meddu ar gyffuriau, ac mae pwerau o'r fath yn cael eu defnyddio'n briodol yn unol â deallusrwydd neu adroddiadau a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd.

- Roedd HMIC yn arbennig o falch o nodi bod y panel craffu stopio a chwilio bellach yn cynnwys dau berson ifanc cyfetholedig. Mae'r lefel hon o graffu yn dangos cyfreithlondeb ac yn darparu proses hygyrch y gellir dal swyddogion yn atebol am y defnydd o'r pwerau hyn.

- Roedd y swyddogion sy'n gymwys i ddefnyddio Taser yn hyderus yn eu defnydd o'r Model Penderfyniad Cenedlaethol wrth ymdrin â digwyddiadau. Roedd HMIC hefyd yn fodlon bod y Model Penderfyniad Cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio i sicrhau mai dim ond pan fo angen y byddai Taser yn cael ei ddefnyddio.

- Mae HMIC yn fodlon bod yr heddlu yn defnyddio dulliau priodol i wirio bod Taser yn cael ei ddefnyddio'n deg ac yn nodi cyfleoedd ar gyfer arfer gwell.

- Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi ymrwymo i gadw pobl yn ddiogel drwy gynyddu ei ddealltwriaeth o'r bygythiadau i'r rhai mwyaf diamddiffyn o fewn ei gymunedau.

- Mae Heddlu Gogledd Cymru yn ffurfio rhan o'r trefniadau cydweithredol sefydledig ar gyfer yr heddlu yn rhanbarth y Gogledd-orllewin i daclo troseddau difrifol ac wedi'u trefnu, yn ogystal â threfniant Cymru gyfan i daclo terfysgaeth, WECTU. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi'r heddlu i gael mynediad at ystod eang o adnoddau arbenigol a thactegau, yn cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael, a'i allu i fynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnus yn effeithiol.

- Mae gan yr heddlu'r trefniadau angenrheidiol ar waith i sicrhau y gall gyflawni ei gyfrifoldebau Plismona cenedlaethol ac mae ganddo ddealltwriaeth dda o'r bygythiadau rhanbarthol, gan dynnu ar y gudd-wybodaeth a ddelir gan sefydliadau partner, heddluoedd eraill a'r uned trosedd wedi'u trefnu rhanbarthol.

## Cydweithio

Ar sail Cymru gyfan mae'r ffocws presennol ar gyfleoedd ym maes caffael a chyfleusterau.

Mae cyfleoedd i gydweithio gyda gwasanaethau brys eraill yn parhau i symud ymlaen yn dda gydag adolygiadau niferus yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Mae un o'r prosiectau dan sylw yn cynnwys ystafell reoli aml-sefydliadol yn Llanelwy.

Yn y Gogledd Orllewin, gwnaed cynnydd ardderchog ar y prosiect cydweithio fforensig gyda dau o'r tri phanel prosiect wedi cael eu cynnal. Mae cynnig terfynol i fod i gael ei gyflwyno i'r tri chomisiynydd heddlu a throsedd a'r tri phrif gwnstabl ym mis Ionawr 2016 i'w gymeradwyo'n derfynol.

## Plant yr effeithir arnynt gan rieni yn y carchar

Yr wyf yn meddwl y byddai'n ddoeth i ddarparu diweddariad mewn perthynas â'n Prosiect Plant yr Effeithir Arnynt gan Rieni yn y Carchar:

Bydd y Panel yn cofio y cyfeiriodd Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru y mater i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru a chytunwyd y byddai'r Bwrdd Diogelu yn adrodd yn ôl maes o law.

Trafodwyd y mater yn briodol gan y Bwrdd Diogelu yn eu cyfarfod ar 11 Gorffennaf lle'r oedd consensws cyffredinol nad oedd y ffaith bod rhiant wedi cael ei garcharu yn ddigonol ynddo'i hun i warantu gwasanaethau i'r plentyn o dan adran 17. Fodd bynnag, cytunwyd y byddai pob achos yn gymwys ar gyfer asesiad anghenion ac yna dylid gwneud penderfyniad ynghylch y gwasanaeth priodol. Mae'r Bwrdd Diogelu wedi gofyn i Dîm Troseddu Ieuenctid Wrecsam sefydlu pa wasanaethau presennol sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd, neu y gellid ei fforddio, i'r grŵp hwn o blant. Mae cynrychiolydd o fy swyddfa yn cyfarfod gyda Phennaeth Tîm Troseddu Ieuenctid Wrecsam ar ddechrau Rhagfyr, a chynrychiolydd o Barnardos Cymru i drafod sut y gellid adnabod plant yr effeithir arnynt gan riant yn y carchar yn lleol.

Mae Ella Rabbiotti o'r CRC wedi cael y dasg o ymgymryd â darn o waith a fyddai'n edrych yn genedlaethol ar sut y gellid adnabod plant yr effeithir arnynt gan riant yn y carchar. Mae'r darn hwn o waith wedi cael ei gomisiynu yn unol â Strategaeth Lleihau Aildroseddu Llywodraeth Cymru.

Unwaith y bydd y Ddeddf Gwasanaethau a Lles Cymdeithasol yn dod i rym yng Nghymru ym mis Mawrth 2016, bydd dyletswydd ar yr awdurdod lleol lle mae'r carchar wedi ei leoli (yr "awdurdod lletyol") i gynnal asesiad o anghenion ar y rhai mewn llety diogel, ac os oes ganddynt blant, i rannu'r wybodaeth honno gyda'r awdurdod cartref fel y gallant wedyn gynnig cefnogaeth i'r teulu.

Bydd cynrychiolydd o fy swyddfa yn mynychu cyfarfod Bwrdd Ymgynghorol Plant a Theuluoedd Carcharorion Llywodraeth Cymru (a sefydlwyd o dan y Strategaeth Lleihau Aildroseddu) yng Nghaerdydd ym mis Rhagfyr. Mae'r Grŵp Ymgynghorol Llwybrau Lleihau Aildroseddu Plant a Theuluoedd Troseddwyr wedi cael ei sefydlu gyda'r bwriad o ddatblygu'r Llwybr Plant a Theuluoedd o fewn 'Strategaeth Lleihau Aildroseddu Cymru 2014-2016'. Bydd y Grŵp yn gweithredu mewn rôl ymgynghorol i'r Grŵp Llwybrau Lleihau Aildroseddu a darparu gwybodaeth ar gynnydd yn erbyn Amcanion 6 Llwybr Cynllun Strategaeth Lleihau Aildroseddu Cymru (Plant a Theuluoedd Troseddwyr) ac mae'n anelu at wneud cyfraniad sylweddol at gyflawni cymunedau mwy diogel i bawb yng Nghymru drwy leihau aildroseddu a throsedd a gwella cefnogaeth i blant a theuluoedd troseddwyr.

## Gohebiaeth

Ffigurau gohebiaeth o 1 Awst i 31 Hydref, 2015

| ***Categori Gohebiaeth*** | ***Rhif*** |
| --- | --- |
| Adborth penodol ynglŷn â'r gwasanaeth plismona | 44 |
| Adborth cyffredinol ynglŷn â'r gwasanaeth plismona | 39 |
| Cwynion a atgyfeiriwyd at yr Adran Safonau Proffesiynol | 18 |
| Materion staffio (gall hyn cynnwys trefniadau ar gyfer paneli camymddwyn, tribiwnlys apeliadau'r heddlu, gohebiaeth gan gymdeithasau staff a materion perthnasol eraill) | 0 |
| Gohebiaeth gyffredinol | 85 |

## Adroddiad o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Diweddariad ar Gyllideb 2015/16 (fel ar 30 Medi 2015)** |
| **Cyfarfod:** | **Heddlu Gogledd Cymru a'r Panel Troseddu, 14 Rhagfyr 2015** |
| **Awdur:** | **Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid** |

**1. Rhagarweiniad**

1.1 Nod y papur hwn yn rhoi diweddariad i aelodau'r panel o'r gyllideb blismona ar gyfer Gogledd Cymru ar 30 Medi 2015 (mis 6).

**2. Argymhellion**

2.1 Nodi'r adroddiad.

**3. Diweddariad ar gyllideb 2015/16**

3.1 Y gyllideb net a gymeradwywyd gan Banel yr Heddlu a Throseddu i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Gogledd Cymru ar 19 Ionawr 2015 oedd £139.836m. Ar 30 Medi 2015, cyfanswm yr amcanestyniad hyd at ddiwedd y flwyddyn yw tanwariant net o £0.416m.

3.2 Rhagwelir y bydd gwariant yn unol â'r gyllideb yn fras. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys rhagweld nifer o orwariannau a thanwariannau. Dyma'r rhai mwyaf arwyddocaol o'r rhain:

- Gweithwyr – rhagwelir tanwariant o £0.321m.
  Ar 30 Mehefin 2015, amcangyfrifwyd gorwariant o £0.408m. Y prif wahaniaeth ar gyfer y symud yw trosglwyddiadau arian o £0.775m i addasu ar gyfer effaith secondiadau a chyllid grant. Ymhlith yr amrywiadau sy'n parhau mae:
  - Gorwariant o £0.278m ar Gyflogau Heddweision – bydd y polisi o recriwtio'n gynnar yn sicrhau bod modd llenwi'r holl swyddi heddweision. Gallai'r gorwariant hwn gael ei ariannu o Gronfa'r Gweithwyr ar Brawf yn unol â'r strategaeth recriwtio.
  - Tanwariant o £0.494m ar gyflogau Staff yr Heddlu – erys nifer y staff asiantaeth yn is na'r flwyddyn ariannol flaenorol.
  - Tanwariant o £0.136m ar gostau cyflogeion eraill – caiff cost hawliadau cyflogwyr ac atebolrwydd cyhoeddus ei chynnwys yn y gyllideb hon. Cafwyd gostyngiad mewn gweithgarwch o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol.

- Costau'r safle – rhagwelir tanwariant o £0.197m
  - Mae'r costau ynni'n is na'r gyllideb yn sgil effaith gyfunol defnydd is a chostau uned is.

- Cludiant – rhagwelir tanwariant o £0.400m
  - Mae swmp hwn yn ymwneud â chostau tanwydd, sy'n codi, ond nid i'r cyfraddau a ragwelwyd pan osodwyd y gyllideb.

- Cyflenwadau a gwasanaethau – rhagwelir gorwariant o £1.249m
    - Ar hyn o bryd, disgwylir i'r gyllideb offer orwario gan £0.283m ar sail y gweithgarwch cyfredol. Rhagwelir y bydd y ffigur hwn yn gostwng yn y misoedd sydd i ddod.
    - TG a Chyfathrebu – gorwariant o £0.853m. Er y tybiwyd y byddai rhywfaint o orgyffwrdd mewn costau yn sgil y trosglwyddo i'r contractwr newydd, mae'r gorwariant yn fwy nag yr oeddem wedi'i ragweld. Mae'r contractwr TG newydd wrthi'n llunio cynigion i leihau'r gorwariant hwn ac adennill yr arbedion a addawyd.

- Incwm – rhagwelir incwm ychwanegol o £0.707m
    - Mae swmp yr incwm ychwanegol hwn yn ymwneud ag erlyniadau wedi'u harwain gan yr heddlu. Lle mae'r heddlu'n arwain erlyniad a chostau'n cael eu dyfarnu, mae'r heddlu'n cael y costau fel incwm. Mae yna gost gysylltiedig, ond gellir ariannu hwn o'r incwm ychwanegol.

3.3 Ar hyn o bryd, mae'r ffioedd cyfalaf, yr arian wrth gefn a'r gronfa diogelwch cymunedol a ragwelwyd yn unol â'r gyllideb.

3.4 Rhoddir crynodeb o'r cyllidebau a'r amcanestyniadau isod.

| | Cyllideb Wreiddiol £'000 | Cyllideb 30 Medi 2015 £'000 | Gwirioneddol 30 Medi 2015 £'000 | Amcanestyniad i Ddiwedd y Flwyddyn £'000 | Amrywiad a Ragwelwyd £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | | |
| Cyflogeion | 119,951 | 120,726 | 59,588 | 120,405 | (321) |
| Safle | 8,051 | 8,051 | 3,919 | 7,854 | (197) |
| Cludiant | 5,133 | 5,133 | 2,170 | 4,733 | (400) |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 19,742 | 19,822 | 10,735 | 21,071 | 1,249 |
| Ffioedd Dyled a Chyfraniadau at Gyfalaf | 1,504 | 1,504 | 752 | 1,504 | - |
| Arian Wrth Gefn | 800 | 693 | - | 693 | - |
| Cronfa Diogelwch Cymunedol | 1,166 | 1,166 | 27 | 1,166 | - |
| **Cyfanswm Gwariant** | **156,347** | **157,095** | **77,191** | **157,426** | **331** |
| | | | | | |
| **Incwm** | **(16,598)** | **(17,346)** | **(6,311)** | **(18,093)** | **(747)** |
| | | | | | |
| **Symudiad mewn cronfeydd** | **87** | **87** | **-** | **87** | **-** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | **139,836** | **139,836** | **70,880** | **139,420** | **(416)** |
| | | | | | |
| **Cyllid** | | | | | |
| Grantiau | (73,162) | (73,162) | (37,397) | (73,162) | - |
| Praesept | (66,674) | (66,674) | (33,337) | (66,674) | - |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(139,836)** | **(139,836)** | **(70,734)** | **(139,836)** | **-** |
| | | | | | |
| **Tanwariant net** | | | | | **(416)** |

3.5 Wedi'i gynnwys yn yr uchod mae incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â grant Gwasanaethau'r Dioddefwyr gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Dyrannwyd £770,773 i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru. Ymrwymwyd £747,972 i gomisiynu gwasanaethau'r dioddefwyr, gyda'r gweddill yn cyfrannu at ein costau cysylltiedig. Gwariwyd £170,401 ar 30 Medi 2015, ond ni wnaed llawer o'r taliadau'n ymwneud â hanner cyntaf y flwyddyn tan fis Hydref. Mae'r gwasanaethau a gomisiynwyd yn cynnwys: Canolfan Gymorth y Dioddefwyr, Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, Cynghorwyr Annibynnol ar Ymosodiadau Rhywiol a Get Safe Online.

## 4. Cyfalaf

4.1 Y rhaglen gyfalaf wreiddiol ar gyfer 2015/16 yw £17.738m yn ôl y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ond pan ystyrir symiau a ddygwyd ymlaen o 2014/15, mae hyn yn codi i £19.138m. Fodd bynnag, bydd rhywfaint o'r gwariant hwn bellach yn cael ei wario yn y blynyddoedd sydd i ddod. Byddwn yn ailbroffilio'r cyllidebau cyfalaf fel rhan o'r broses o osod y gyllideb.

4.2 Dyrannwyd dros 50% o'r gyllideb cyfalaf ar gyfer 2015/16 i'n tri phrosiect ystadau mawr:

- Prosiect Wrecsam - £9.389m (cyfanswm cyllideb o £16.8m gan gynnwys blynyddoedd blaenorol)
- Datblygiad Llandudno - £0.600m (cyfanswm cyllideb o £2.750m gan gynnwys blynyddoedd blaenorol)
- Symud Pwllheli - £1.052m

  Mae'r prosiectau hyn yn parhau i fod ar y cam cynllunio a datblygu, ond mae'n debygol y bydd rhywfaint o'r gwariant a gynlluniwyd ar y cynlluniau hyn yn 2015/16 yn syrthio i flynyddoedd ariannol y dyfodol. Bydd y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf yn cael ei hailbroffilio pan fydd mwy o wybodaeth yn hysbys.

4.3 Cwblhawyd y fframwaith prynu cerbydau cenedlaethol newydd ym mis Medi. Er bod hyn wedi arwain at oedi yn y rhaglen, disgwylir y bydd y rhaglen yn cael ei chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

4.4 Mae mwyafrif y prosiectau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn y cam dylunio a chomisiynu.

4.5 Dengys crynodeb o'r cyllidebau cyfalaf isod:

| | Cyllideb 2015/16 (gan gynnwys dygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol) £'000 | Gwariant 2015/16 hyd at 30 Medi 2015 £'000 | Cyllideb 2016/17 (fesul MTFP) £'000 |
|---|---|---|---|
| Rhaglen Ystadau | 11,759 | 523 | 8,747 |
| Cerbydau ac Offer | 2,272 | 793 | 1,500 |
| Cyfarpar Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 5,106 | 163 | 300 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **19,137** | **1,479** | **10,547** |

## 5 Goblygiadau

| | |
|---|---|
| Amrywiaeth | Dim goblygiadau amrywiaeth ar wahân |
| Ariannol | Pwrpas yr adroddiad hwn yw llywio'r Panel Heddlu a Throseddu o'r refeniw a'r safle monitro cyfalaf fel y mae ar ddiwedd mis Medi 2015.<br><br>Mae cyllid digonol yn hollbwysig i gyflawni cynllun yr heddlu a throseddu a diwallu'n gofynion cyfreithiol. |
| Cyfreithiol | Dim goblygiadau cyfreithiol ar wahân |
| Risg | Dim goblygiadau risg ar wahân |
| Cynllun Heddlu a Throseddu | Dim goblygiadau heddlu a throseddu ar wahân. |

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD:** | 14/12/15 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth a'r Amgylchedd) Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **TESTUN:** | Crynodeb o'r cwynion sydd wedi dod i law |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Darparu crynodeb o'r cwynion sydd wedi dod i law hyd yn hyn i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.3 Fel yr adroddwyd yn y cyfarfod ar 19 Ionawr 2015, mae'r Panel Heddlu a Throsedd wedi derbyn 5 cwyn i'w cofnodi hyd yn hyn, gyda phob un ohonynt wedi cael eu hadrodd yn flaenorol i'r Panel a phob un wedi cau bellach.

2.4 Mae'r Panel Heddlu a Throsedd wedi cael dwy gŵyn arall, fodd bynnag, nid yw'r cwynion hyn yn cael eu cofnodi hyn ar hyn o bryd, gan nad ydyw'r Adran Safonau Proffesiynol wedi cyrraedd casgliad eu hymchwiliadau eto.

2.4 Er bod gan y Panel Heddlu a Throsedd y cylch gwaith yn unig i ddelio â chwynion yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, mae'r Panel Heddlu a Throsedd wedi derbyn 19 o gwynion ynghylch Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r cwynion hyn wedi cael eu hanfon ymlaen at yr Adran Safonau Proffesiynol a chopïau wedi'u hanfon at Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

**3. ARGYMHELLIAD**

3.1 Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru'n nodi'r adroddiad a'r camau a gymerwyd mewn perthynas â'r cwynion ynghylch Heddlu Gogledd Cymru.

**4. GWYBODAETH GEFNDIR**

4.1 Mae gan Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gyfrifoldeb statudol o ran trin a phenderfynu ar gwynion penodol a wnaed yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

4.2 Cytunodd y Panel i ddirprwyo ei swyddogaethau i'r Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth a'r Amgylchedd) yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Awdurdod Lletyol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, y mae'n rhaid iddo ymgynghori â'r Cadeirydd, Is-gadeirydd ac un Aelod Annibynnol wrth benderfynu ar y math o gwynion a dderbyniwyd, a'r strategaeth ar gyfer rheoli cwynion i'w datrys yn lleol a datrysiad terfynol y Panel i'r cwynion.

4.3 O Chwefror 2016, mae'r Panel Heddlu a Throsedd wedi cytuno i ddirprwyo ei swyddogaethau i Ymgynghorydd Cyfreithiol a Chyfreithiwr y Panel Heddlu a Throsedd, gan fod y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth a'r Amgylchedd) yn gadael yr Awdurdod Lletyol.

4.4 Er nad oes unrhyw gwynion i'w cofnodi wedi dod i law yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd neu Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, mae'n dal yn angenrheidiol rhoi crynodeb o'r cwynion sydd wedi dod i law, i'r Panel Heddlu a Throsedd.

4.5 Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am ddelio â chwynion ynglŷn â'r Prif Gwnstabl. Caiff cwynion eu cofnodi yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 a Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Bydd ystadegau yn cael eu cyhoeddi yn flynyddol ac yn chwarterol gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu – mae'r ystadegau yn darparu manylion am gyfanswm y cwynion a gafwyd gan bob llu heddlu.

**5. YMGYNGHORI**

5.1 Ymgynghorwyd â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd mewn perthynas â'r cwynion a ddaeth i law.

**6. ADNODDAU**

6.1 Er bod y Swyddfa Gartref yn darparu grant i'r Awdurdod Arweiniol ar gyfer costau gweinyddol, mae'r gofyniad i ddatrys cwynion nad ydynt yn droseddol yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cymryd swm anghymesur o amser Swyddog.

## 7. RISG

7.1 Er mwyn cydymffurfio â'r Weithdrefn Gwyno, mae angen rhoi gwybod am grynodeb o bob cwyn (fel y gellir rhoi gwybod yn gyhoeddus) ac arfer ei swyddogaethau at ddibenion monitro.

## 8. RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD

8.1 Hysbysu'r Panel Heddlu a Throsedd o nifer y cwynion a ddaw i law yn rheolaidd.

POLICE AND CRIME PANEL

PANEL HEDDLU A THROSEDD

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Dawn Hughes |
| | Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bodlondeb<br>Conwy<br>LL28 5NF |
| E-bost: | dawn.hughes@conwy.gov.uk |
| Rhif Ffôn: | 01492 576061 |

| Dyddiad | Testun | Swyddog Cyfrifol<br>(gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **14 Rhagfyr 2015** | **Cofnodion Cwynion**<br>Cael crynodeb o nifer y cwynion a gafwyd a'r weithred | Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol - Democratiaeth a'r Amgylchedd |
| **14 Rhagfyr 2015**<br>**14 Mawrth 2016** | **Diweddariad ar Gyllideb 2015/16** | Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) |
| **14 Rhagfyr 2015** | **Cyflwyniad gan Mr Andy Jones ar yr Uned Rheoli Troseddwyr Integredig** | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **25 Ionawr 2016** | **Praesept Arfaethedig 2016/17** | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **25 Ionawr 2016** | **Cynllun Ariannol Tymor Canolig** | Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) |
| **25 Ionawr 2016**<br>**14 Mawrth 2016** | **Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru** | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **25 Mawrth 2016** | **Y diweddaraf am sut mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn dwyn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i gyfrif yng Ngogledd Cymru mewn perthynas â Chynllun yr Heddlu a Throsedd** | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **25 Mawrth 2015** | **Amserlen Gyfarfod ar gyfer 2016/17** | Awdurdod Cynnal |
| | | |

| Dyddiad | Testun | Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **Eitemau yn y dyfodol** | | |
| **I'w gadarnhau** | **Diweddariad ar newidiadau i'r Fformiwla Cyllido**<br>Derbyn diweddariad ar yr adolygiad o fformiwla cyllido yr heddlu. | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **I'w gadarnhau** | **Adolygiad blynyddol o aelodaeth y Panel Heddlu a Throsedd**<br>Sicrhau y bydd Aelodau Etholedig y Panel, cyn belled ag sy'n ymarferol, yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol a demograffig cymunedol Gogledd Cymru.<br><br>Gan gynnwys methodoleg ar gyfer penodi aelodau etholedig i Banel yr Heddlu a Throsedd. | Awdurdod Cynnal |
| **I'w gadarnhau** | **Adolygu Cylch Gorchwyl Panel yr Heddlu a Throsedd**<br>Adolygu'r Cylch Gorchwyl er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben. | Awdurdod Cynnal |
| **I'w gadarnhau** | **Dyfodol Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu** | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |